# Map Cyflym o Dystiolaeth
# Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru (WCEC)

## Effaith y pandemig COVID-19 ar blant ac oedolion anabl ar draws parthau bywyd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: Map Cyflym o Dystiolaeth

Rhif adroddiad – REM00025 Rhagfyr 2021

| Manylion y Map Cyflym o Dystiolaeth |
|---|

**Map Cyflym o Dystiolaeth wedi'i gynnal gan:**

Uned Arbenigol ar gyfer Tystiolaeth Adolygu

**Tîm Adolygu:**

- Andrew Cleves
- Freya Davies
- Kate Lifford
- Mala Mann
- Helen Morgan
- Lydia Searchfield
- Alison Weightman

**Map Cyflym o Dystiolaeth wedi'i gyflwyno i WCEC ar:**
17eg Rhagfyr 2021

**Cyfarfod ymgynghori â rhanddeiliaid:**
20fed Rhagfyr 2021

**Map Cyflym o Dystiolaeth wedi'i gyhoeddi gan WCEC ar:**
[diwrnod, Mawrth 2022

**Tîm WCEC:**

- Adrian Edwards, Alison Cooper, Ruth Lewis, Becki Law, Micaela Gal a Jane Greenwell, a gyfrannodd at ei ddrafftio, llunio'r Crynodeb o'r Prif Bwyntiau a'i olygu

**Dylid dyfynnu'r Map Cyflym o Dystiolaeth hwn fel a ganlyn:**
REM00025. Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru. Map cyflym o dystiolaeth o effaith y pandemig COVID-19 ar blant ac oedolion anabl ar draws parthau bywyd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Mawrth 2022
http://www.primecentre.wales/resources/REM00025_Wales_COVID-19_Evidence_Centre_Rapid_Evidence_Map_of_health_effects_of_COVID_on_disabled_March_2022-cy.pdf

**Ymwadiad:** Barn yr awduron yw'r rhai sydd wedi'u mynegi yn y cyhoeddiad hwn, yn hytrach na barn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru o reidrwydd. Mae WCEC ac awduron y gwaith hwn yn datgan nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro.

**Effaith y pandemig COVID-19 ar blant ac oedolion anabl ar draws parthau bywyd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: Map Cyflym o Dystiolaeth**

Rhif adroddiad – REM00025 Rhagfyr 2021

## CRYNODEB O'R PRIF BWYNTIAU

**Beth ydy Map Cyflym o Dystiolaeth (REM)?**

Mae ein Map Cyflym o Dystiolaeth (REM) yn defnyddio **dulliau mapio neu gwmpasu adolygiadau systematig** talfyredig i ddarparu disgrifiad o natur, nodweddion a swm y dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer parth polisi neu gwestiwn ymchwil penodol. Maent wedi'u seilio'n bennaf ar asesiad o grynodebau ac yn ymgorffori protocol a-priori, chwiliad systematig, sgrinio a thynnu data lleiaf. Gallant weithiau gynnwys arfarnu beirniadol, ond ni wneir unrhyw gyfuno tystiolaeth. Rhoddir blaenoriaeth, lle bo'n ddichonol, i astudiaethau sy'n cynrychioli cyfuno tystiolaeth yn gadarn. Maent wedi'u dylunio a'u defnyddio'n bennaf i nodi ffocws sylweddol ar gyfer adolygiad cyflym, a bylchau ymchwil allweddol yn y sylfaen dystiolaeth. (*D.S. Nid yw mapiau o dystiolaeth yn addas i gefnogi datblygu polisi ar sail tystiolaeth, gan nad ydynt yn cynnwys cyfuniad o'r canlyniadau*.)

Mae yna gysylltiad rhwng yr adroddiad hwn ac adolygiad cyflym dilynol â ffocws a gyhoeddwyd dan yr enw: Effaith y pandemig COVID-19 ar iechyd pobl anabl ac ar eu gallu i gael gafael mewn gofal iechyd: adolygiad cyflym
Rhif adroddiad – RR00025 (Mawrth 2022)

http://www.primecentre.wales/resources/RR/RR00025_Wales_COVID-19_Evidence_Centre_Rapid_Review_of_health_effects_of_COVID_on_disabled_March-2022-cy.pdf

**Cefndir / Nod y Map Cyflym o Dystiolaeth**

Mae'r pandemig COVID-19 wedi cael effaith anghymesur ar bobl anabl. Er mwyn targedu a blaenoriaethu camau gweithredu i atal neu fynd i'r afael â hyn, roedd angen i Gangen Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol Llywodraeth Cymru ddatblygu dealltwriaeth glir o'r anghydraddoldebau systemig y mae pobl anabl yn eu hwynebu, sydd wedi'u creu neu eu gwaethygu o ganlyniad i'r pandemig COVID-19 ar draws y parthau **addysg, gwaith, safonau byw, iechyd, cyfiawnder a diogelwch personol, a chyfranogiad**. Roedd y cwestiwn ymchwil wedi'i seilio ar yr adroddiad 'Drws ar Glo: datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19', â'r nod o ddarparu sail ar gyfer gwaith Tasglu Hawliau Pobl Anabl, Llywodraeth Cymru. Oherwydd bod y maes pwnc yn eang iawn, cwblhawyd map cyflym o dystiolaeth, gan ddefnyddio **dull adolygiad cwmpasu, i nodi lle y gallai adolygiad cyflym â ffocws fod yn ddichonol ac yn ddefnyddiol**. Fel rhan o'r map cyflym o dystiolaeth hwn, nodir nodweddion y sylfaen dystiolaeth mor fanwl â phosibl gan ddefnyddio chwe pharth bywyd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, y soniwyd amdanynt o'r blaen.

**Darganfyddiadau Allweddol**

*Graddau'r sylfaen dystiolaeth*

- Cynhwyswyd 68 o astudiaethau. Ni nodwyd unrhyw adolygiadau systematig neu gyflym perthnasol.
- Roedd mwyafrif y dystiolaeth yn 'llenyddiaeth lwyd' (n=47) ac nid oeddent, ar y cyfan, wedi'u hadolygu gan gymheiriaid.
- Roedd mwyafrif yr astudiaethau'n defnyddio dyluniad meintiol (n=29) neu ddulliau cymysg (n=25). Roedd llawer o astudiaethau'n arolygon cyflym gydag adrodd gwael ar y fethodoleg.
- O'r 68 o astudiaethau a nodwyd, roedd 25 yn ddadansoddiadau meintiol a oedd yn adrodd ar faint sampl. Maint sampl canolrifol yr astudiaethau meintiol hyn oedd 2,171 o gyfranogion (amrediad rhyngchwartel o 936 i 10,366).

*Parthau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol*

- Roedd mwyafrif yr astudiaethau'n rhoi sylw i'r parth **iechyd** (n=56). Roedd yr astudiaethau'n rhoi sylw i'r **tri dangosydd (deilliannau iechyd, mynediad i ofal iechyd, iechyd meddwl**) a ddefnyddir i fesur iechyd yn fframwaith y Comisiwn, gan **adrodd amlaf ar iechyd meddwl**.
- Yn achos y parth **safonau byw**, tlodi a gofal cymdeithasol oedd y dangosyddion yr adroddwyd arnynt amlaf.
- Yn achos y parth **cyfranogiad**, mynediad i wasanaethau oedd y dangosydd yr adroddwyd arno amlaf.
- **Cyfyngedig oedd y dystiolaeth ar gyfer y parth addysg ac roedd yna lai fyth ar gyfer y parth cyfiawnder a diogelwch personol**. Yn achos dangosyddion penodol, cyfyngedig oedd y dystiolaeth ar gyfer tai (parth safonau byw) ac roedd yna ddiffyg tystiolaeth ar gyfer cynrychiolaeth a chyfranogiad gwleidyddol a dinesig, a dangosyddion preifatrwydd a gwyliadwriaeth (parth cyfranogiad).

*Poblogaeth*

- Roedd mwyafrif yr astudiaethau'n cynnwys pobl anabl fel cyfanwaith, yn hytrach na chanolbwyntio ar namau penodol, lle gallai effeithiau a phrofiadau amrywio rhwng mathau o namau. Nid oedd rhai o'r astudiaethau'n darparu data wedi'u dadgyfuno ar gyfer pobl anabl a'u gofalwyr.
- Dim ond 2 astudiaeth oedd yn edrych yn benodol ar bobl anabl, neu randdeiliaid ar gyfer pobl anabl, a oedd yn byw yng Nghymru.

*Diweddaredd y dystiolaeth*

- Cynhaliwyd mwyafrif yr astudiaethau yn ystod 'ton gyntaf' ac 'isafbwynt cyntaf' y pandemig, sef mis Mawrth 2020 i fis Awst 2020.

## Goblygiadau ar gyfer Adolygiad Cyflym

Byddai adolygiadau cyflym sy'n edrych ar effaith y pandemig yn y meysydd a ganlyn yn ddichonol: iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl; mynediad i ofal iechyd; tlodi; gofal cymdeithasol neu fynediad i wasanaethau. Fodd bynnag, mae astudiaethau'n amrywio'n helaeth o ran poblogaethau, cyfnodau casglu data, dyluniadau astudiaethau a'r cysyniadau dan sylw. Felly, ochr yn ochr â diffinio'r cysyniad allweddol (parth) y byddai cwestiwn adolygiad cyflym yn ceisio'i ateb, byddai angen manylu'n glir ar y boblogaeth o ran p'un a yw'r ffocws ar namau penodol neu ar astudiaethau fu'n ystyried pobl anabl fel grŵp cyfan, neu grwpiau cysylltiedig fel gofalwyr neu randdeiliaid eraill. Hefyd, byddai angen bod yn glir ynglŷn â ph'un ai nod cwestiwn yr adolygiad cyflym oedd mesur effaith y pandemig (gan ddefnyddio astudiaethau meintiol) neu gasglu profiad ansoddol pobl

| |
|---|
| (gan ddefnyddio astudiaethau ansoddol). |

http://www.primecentre.wales/resources/REM00025_Wales_COVID-19_Evidence_Centre_Rapid_Evidence_Map_of_health_effects_of_COVID_on_disabled_March_2022.pdf